TGAU

# CBAC TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg (Gradd Unigol a Dwyradd)

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

## Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

Uned 2: Hunaniaeth
Addysgu o 2025
Dyfarnu o 2027

Fersiwn 2 - Mawrth 2026



Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Hoffai CBAC ddiolch i fyfyrwyr ac athrawon Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Llanwern, Casnewydd am gymryd rhan yn y gwaith o greu'r cloriau hyn.

# CRYNODEB O NEWIDIADAU

| Fersiwn | Disgrifiad | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| 2 | Gwiriad i Daflen Cofnodi Marciau'r Ymgeisydd & Ffurflen Datganiad yr Ymgeisydd | 7-8 |

Sampl ni ddylid ei ddefnyddio gydag asesiadau byw



© WJEC CBAC Ltd 2024.

## Cynnwys

Tasg ........................................................................................................................ 1
Asesu ........................................................................................................................ 4
Atodiad 1 – Taflen Asesu………………………………………………………………………..   7

Sampl ni ddylid ei ddefnyddio gydag asesiadau byw

**Hawlfraint**

© WJEC CBAC Limited 2024.



© WJEC CBAC Ltd 2024.

# Uned 2
3030N2
Manylion Asesu

| |
|---|
| Asesiad di-arholiad:<br>Trafodaeth Grŵp<br>20% o'r cymhwyster gradd unigol (10% o’r cymhwyster dwyradd)<br>Wedi’i osod gan CBAC, ei farcio gan y ganolfan a’i gymedroli gan CBAC<br>40 marc |

Sampl ni ddylid ei ddefnyddio ar gyfer asesiadau byw

## Tasg

Mae gofyn i ddysgwyr:
- gymryd rhan mewn trafodaeth grŵp hyd at **15** munud o hyd
- siarad a gwrando mewn grwpiau o **3**
- ffocysu eu trafodaeth ar hunaniaeth o fewn y testun gweledol dewisol yn unol â’r cwestiwn a ryddhawyd gan CBAC.

**Gosod y dasg**

Bydd gan ganolfannau ddewis rhydd o destun gweledol. Mae modd i ganolfannau ddewis testunau gwahanol ar gyfer carfanau gwahanol o ddysgwyr. Disgwylir i ganolfannau ffocysu eu trafodaeth ar hunaniaeth yn y testun gweledol dewisol yn unol â’r cwestiwn a ryddhawyd gan CBAC. Rhennir gwybodaeth am y cwestiwn i ganolfannau ym mis Ebrill trwy Porth CBAC.

Gall cwestiynau fod yn seiliedig ar:
- gymeriadau
- plot/naratif
- themâu.

Er enghraifft: Trafodwch i ba raddau mae gwahanol gymeriadau yn cyrraedd eu nod o fewn y testun a astudiwyd gennych.

Bydd yr un cwestiwn yn parhau am **ddwy** flynedd. Mae’n ofynnol i ganolfannau sicrhau eu bod yn defnyddio’r cwestiwn cywir ar gyfer pob cyfres. Gweler isod:

| Rhyddhau Cwestiwn | Cyfres |
|---|---|
| Ebrill 2025 | Haf 2026 a 2027 |
| Ebrill 2027 | Haf 2028 a 2029 |
| Ebrill 2029 | Haf 2030 a 2031 |



© WJEC CBAC Ltd 2024.

## Testunau addas

- Craith (2 bennod)
- Y Sŵn
- Y Gwyll (2 bennod)
- Y Weithred
- Y Streic a fi
- 35 diwrnod (2 bennod)
- Rownd a Rownd (3 bennod)
- Un Bore Mercher (2 bennod)
- Tân ar y Comin
- Y Llyfrgell
- Y Syrcas
- Patagonia
- Y Goleudy
- Martha, Jac a Sianco

Nid yw'n bosibl defnyddio rhaglenni dogfen neu ffilmiau ffeithiol fel testunau o fewn yr uned hon.

**Ymgymryd â'r dasg**

**Ymchwilio a pharatoi**

Dylai athrawon roi'r dasg i'r dysgwyr tua **5 awr** cyn y disgwylir iddynt gyflawni'r dasg. Nid yw hyn yn cynnwys yr amser sydd ei angen i baratoi'r testun gyda'r dysgwyr.

Goruchwyliaeth

Bydd angen i ganolfannau gwblhau'r cyfnod ymchwilio a pharatoi hwn dan oruchwyliaeth anuniongyrchol.

**Adnoddau**

Yn ystod y cyfnod ymchwilio a pharatoi:
- gall dysgwyr gyfeirio at y testun
- gall dysgwyr gael mynediad at adnoddau a/neu nodiadau paratoadol
- gall dysgwyr ddefnyddio'r we
- gall dysgwyr gael mynediad at eiriaduron/thesawrws
- gwaherddir defnyddio AI i gynhyrchu ymatebion a chaiff ei drin fel camymddwyn.

Gall athrawon drafod a rhoi cyngor cyffredinol i ddysgwyr. Gellir gosod ymarferion/tasgau byrion, naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, i'w cwblhau gan y dysgwyr yn y dosbarth i'w cynorthwyo i ddeall natur y dasg.

Gall dysgwyr weithio'n unigol neu gydweithio â'i gilydd wrth gwblhau'r ymarferion hyn. Dylid cofnodi unrhyw arweiniad a roddir i'r dysgwyr ar y taflenni marcio unigol pan gyflwynir y sampl i'w safoni.

Sampl i'w ddefnyddio gydag asesiadau byw



© WJEC CBAC Ltd 2024.

## Cwblhau'r dasg

### Goruchwyliaeth

Rhaid i ganolfannau gwblhau'r dasg dan oruchwyliaeth uniongyrchol.

### Adnoddau

Wrth gwblhau'r dasg hon:
- Caniateir i'r ymgeiswyr ddefnyddio nodiadau bras yn unig yn ystod y cyfnod asesu. Rhaid cyflwyno'r nodiadau yma gyda'r recordiad o'r dasg asesu. Dylid nodi'r dasg a dyddiad y dasg ar y gwaith a gyflwynir i'w asesu.

Yn ystod y drafodaeth grŵp dylai'r athro roi cyfle i'r grŵp drafod yn annibynnol. **Disgwylir trafodaeth naturiol heb ei sgriptio.**

Dylid cyfyngu cymorth athrawon i esboniad o dasgau, a dylid nodi manylion y rhain fel rhan o'r asesiad. Os defnyddir ymyriad athro/athrawes, er enghraifft i annog dysgwr, dylid nodi hyn hefyd a'i gymryd i ystyriaeth pan fydd yr asesiad yn cael ei gwblhau. Ceir mwy o wybodaeth am sut i ymdrin ag ymyrraeth athro/athrawes wrth asesu dysgwyr o fewn y dogfennaeth Canllawiau i Athrawon.

Os oes angen, dylai'r athro:
- ysgogi trafodaeth
- annog newid cyfeiriad ar gyfer y drafodaeth
- gofyn i ddysgwr ddarparu tystiolaeth i gadarnhau syniadau neu ddatblygu dadl
- sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfle i ymateb.

### Dilysu'r Asesiadau Di-arholiad

Mae gofyn i ddysgwyr lofnodi mai eu gwaith eu hunain yw'r gwaith a gyflwynwyd ac mae gofyn i athrawon/aseswyr gadarnhau mai gwaith y dysgwr o dan sylw'n unig yw'r gwaith a asesir ac iddo gael ei wneud o dan yr amodau gofynnol. Bydd CBAC yn darparu copi o'r ffurflen ddilysu, sy'n rhan o'r ffurflen glawr ar gyfer pob dysgwr. Mae'n bwysig nodi bod gofyn i bob dysgwr lofnodi'r ffurflen hon, ac nid yn unig y rhai y mae eu gwaith yn rhan o'r sampl a gyflwynir i'r safonwr. Nid oes angen adrodd i CBAC am gamymddygiad a ddarganfuwyd cyn i'r dysgwr lofnodi'r datganiad dilysu ond rhaid ymdrin ag ef yn unol â gweithdrefnau mewnol y ganolfan.

Cyn i unrhyw waith tuag at yr Asesiad Di-arholiad gael ei gwblhau, dylid tynnu sylw'r dysgwyr at yr Hysbysiad i Ymgeiswyr perthnasol gan y CGC. Ceir cyswllt i'r hysbysiad yn y ddogfen Cyfarwyddiadau ar Gynnal Asesiadau dan Reolaeth ar wefan CGC (www.jcq.org.uk).

Sampl ni ddylid ei ddefnyddio gydag asesiadau byw



© WJEC CBAC Ltd 2024.

## Asesu

Disgwylir i’r athro / athrawes farcio’r dasg o gyfanswm o 40

Dyfernir 20 marc ar gyfer AA1 (deall ac ymateb).

Dyfernir 20 marc ar gyfer AA2 (mynegi a chyfathrebu).

Dylid pennu'r band priodol ar gyfer pob colofn yn unigol drwy benderfynu pa ddisgrifydd perfformiad sy'n adlewyrchu perfformiad y dysgwr orau.

Yna dylid pennu'r marc priodol o fewn y band drwy bennu i ba raddau y mae'r dysgwr wedi bodloni'r meini prawf yn y band perthnasol.

Gall cyfanswm y marciau ar gyfer pob perfformiad adlewyrchu gwahanol fandiau ar draws y meini prawf asesu, er enghraifft, gall dysgwyr gyflawni band 4 yng ngholofn 1 a band 3 yng ngholofn 2.

Dylid nodi bod y bandiau wedi'u cynllunio i gynorthwyo'r broses farcio drwy nodi lefelau cyflawniad unigol ac nid ydynt yn cyfateb i ffiniau graddau.

| Band | AA1<br>Deall ac ymateb | AA2<br>Mynegi a chyfathrebu |
|---|---|---|
| **5** | **17-20 marc**<br>• arddangos gwybodaeth drylwyr a chwbl berthnasol o’r testun gweledol dewisol gan gyflwyno tystiolaeth i gadarnhau safbwynt yn ardderchog drwy gyfeirio at olygfeydd perthnasol a defnyddio dyfyniadau yn gwbl briodol<br>• cyfeiriadau pwrpasol a chwbl berthnasol at gyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol a hanesyddol y testun gweledol<br>• ymdriniaeth drylwyr a chwbl berthnasol o’r ymdeimlad o hunaniaeth o fewn y testun gweledol<br>• defnyddio termau gwerthfawrogi testun gweledol yn dreiddgar gan ystyried eu heffeithiolrwydd<br>• gwrando’n astud a gofalus ar hyd yr amser | **17-20 marc**<br>• defnyddio cywair cwbl addas i’r dasg<br>• gafael sicr iawn ar ramadeg<br>• defnyddio amrywiaeth o frawddegau cwbl addas ac effeithiol iawn<br>• gafael sicr iawn ar dreigladau<br>• gafael sicr iawn ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |



© WJEC CBAC Ltd 2024.

| | | |
|---|---|---|
| **4** | **13-16 marc**<br>• arddangos gwybodaeth dda a pherthnasol o'r testun gweledol dewisol gan gyflwyno tystiolaeth i gadarnhau safbwynt yn effeithiol drwy gyfeirio at olygfeydd perthnasol a defnyddio dyfyniadau yn briodol<br>• cyfeiriadau da a pherthnasol at gyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol a hanesyddol y testun gweledol<br>• ymdriniaeth dda a pherthnasol o'r ymdeimlad o hunaniaeth o fewn y testun gweledol<br>• defnyddio termau gwerthfawrogi testun gweledol yn dda gan ystyried eu heffeithiolrwydd<br>• gwrando'n ofalus ar hyd yr amser | **13-16 marc**<br>• defnyddio cywair priodol i'r dasg<br>• gafael sicr ar ramadeg<br>• defnyddio amrywiaeth effeithiol o frawddegau<br>• gafael sicr ar dreigladau<br>• gafael sicr ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **3** | **9-12 marc**<br>• arddangos gwybodaeth foddhaol ac eithaf perthnasol o'r testun gweledol dewisol gan gyflwyno tystiolaeth i gadarnhau safbwynt yn eithaf effeithiol drwy gyfeirio at olygfeydd a defnyddio dyfyniadau yn achlysurol<br>• cyfeiriadau boddhaol ac eithaf perthnasol at gyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol a hanesyddol y testun gweledol<br>• ymdriniaeth foddhaol o'r ymdeimlad o hunaniaeth o fewn y testun gweledol<br>• defnyddio termau gwerthfawrogi testun gweledol yn foddhaol gan ystyried ychydig ar eu heffeithiolrwydd<br>• gwrando'n eithaf gofalus ar hyd yr amser | **9-12 marc**<br>• dangos ymwybyddiaeth o gywair priodol i'r dasg<br>• gafael gyson ar ramadeg ar y cyfan<br>• defnyddio amrywiaeth o frawddegau<br>• mwyafrif y treigladau yn gywir<br>• mwyafrif y berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn gywir |

Sampl ni ddylid ei ddefnyddio gydag asesiadau byw



© WJEC CBAC Ltd 2024.

| | | |
|---|---|---|
| **2** | **5-8 marc**<br>• arddangos peth gwybodaeth o'r testun gweledol dewisol gan gyflwyno ychydig o dystiolaeth i gadarnhau safbwynt drwy gyfeirio at ychydig o olygfeydd a defnyddio ambell ddyfyniad<br>• ambell gyfeiriad at gyd-destunau cymdeithasol, diwylliannol a hanesyddol y testun gweledol<br>• peth ymdriniaeth o'r ymdeimlad o hunaniaeth o fewn y testun gweledol<br>• ambell derm gwerthfawrogi testun gweledol<br>• gwrando ar adegau allweddol | **5-8 marc**<br>• dangos peth ymwybyddiaeth o gywair priodol i'r dasg<br>• gafael anghyson ar ramadeg<br>• amrywio brawddegau rhywfaint<br>• treigladau yn eithaf cywir<br>• berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn eithaf cywir |
| **1** | **1-4 marc**<br>• arddangos gwybodaeth syml am gynnwys y testun gweledol trwy ailadrodd rhannau o'r stori<br>• trafod rhai technegau ffilmio<br>• gwrando ar adegau | **1-4 marc**<br>• gafael gyfyngedig ar ramadeg<br>• ystod gyfyngedig o frawddegau<br>• gafael gyfyngedig ar dreigladau<br>• gafael gyfyngedig ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **0** | Dim sy'n haeddu ei wobrwyo | |

Sampl ni ddylid ei ddefnyddio gydag asesiadau byw



© WJEC CBAC Ltd 2024.

# TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg

Taflen Cofnodi Marciau'r Ymgeisydd & Ffurflen Datganiad yr Ymgeisydd
(Asesiad grŵp)

| **Rhif y Ganolfan:** | 6 | 8 | | | | | **Enw'r Ganolfan:** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

| **Teitl yr uned:** | UNED 2: Hunaniaeth |
|---|---|

| **1. Rhif yr ymgeisydd:** | **Enw'r ymgeisydd: (enw/au cyntaf ac yna cyfenw)** | |
|---|---|---|
| | AA1: Deall ac ymateb | /20 |
| | AA2: Mynegi a chyfathrebu | /20 |
| | **Cyfanswm marciau** | **/40** |

**Cwblhewch y tablau canlynol gyda manylion gweddill aelodau'r grŵp**

| **2. Rhif yr ymgeisydd:** | **Enw'r ymgeisydd: (enw/au cyntaf ac yna cyfenw)** | |
|---|---|---|
| | AA1: Deall ac ymateb | /20 |
| | AA2: Mynegi a chyfathrebu | /20 |
| | **Cyfanswm marciau** | **/40** |

| **3. Rhif yr ymgeisydd:** | **Enw'r ymgeisydd: (enw/au cyntaf ac yna cyfenw)** | |
|---|---|---|
| | AA1: Deall ac ymateb | /20 |
| | AA2: Mynegi a chyfathrebu | /20 |
| | **Cyfanswm marciau** | **/40** |

**Datganiad Dilysu'r Ymgeisydd**
Rwy'n datgan fy mod wedi cwblhau'r dasg lafar pâr/grŵp yn unol â'r rheolaethau sy'n cael eu datgan yng nghopi'r ymgeisydd.

| **Llofnod ymgeisydd 1:** | **Dyddiad**: |
|---|---|
| **Llofnod ymgeisydd 2:** | **Dyddiad**: |
| **Llofnod ymgeisydd 3:** | **Dyddiad**: |

Sampl ni chaniateir ei ddefnyddio gydag asesiadau byw



© WJEC CBAC Ltd 2024.

**At sylw'r ymgeiswyr, darllenwch y datganiad isod**

**Cydsyniad GDPR Ymgeisydd**

- Efallai y bydd CBAC yn dewis eich gwaith i'w ddefnyddio mewn digwyddiadau hyfforddi i athrawon. Gallan nhw wedyn ei uwch lwytho i wefan ddiogel CBAC (dim ond ar gael i athrawon sydd â mynediad drwy fewngofnodi diogel). Byddai eich enw yn cael ei dynnu oddi ar eich gwaith cyn i ni ei ddefnyddio. Mae pob darn yn cael ei adolygu'n gyson a'i ddileu pan nad yw'n berthnasol i'n cymwysterau mwyach.
- Efallai y bydd CBAC yn dewis eich gwaith i'w ddefnyddio mewn adnoddau ar gyfer addysgu a dysgu a gyhoeddir ar wefan gyhoeddus CBAC. Byddai eich enw yn cael ei dynnu oddi ar eich gwaith cyn i ni ei ddefnyddio. Mae pob darn yn cael ei adolygu'n gyson a'i ddileu pan nad yw'n berthnasol i'n cymwysterau mwyach.
- Rydych chi'n deall ei bod yn bosibl dod â'r cytundeb hwn i ben ar unrhyw adeg drwy ysgrifennu atom i wneud cais am hynny. [1]
- Am ragor o fanylion ynglŷn â sut rydym yn prosesu eich data, darllenwch Hysbysiad Preifatrwydd CBAC.

**Datganiad yr ymgeisydd**

Rwy'n rhoi caniatâd i fy ngwaith llafar gael ei ddefnyddio mewn digwyddiadau hyfforddi athrawon ac i'w lwytho i fyny ar wefan ddiogel CBAC / i gael ei ddefnyddio fel rhan o adnodd dysgu ac addysgu digidol ar wefan gyhoeddus CBAC.

**Os ydych chi'n hapus i CBAC ddefnyddio eich gwaith fel hyn, ticiwch yma:**

**Ymgeisydd 1** ☐ **Ymgeisydd 2** ☐ **Ymgeisydd 3** ☐

| | |
|---|---|
| **Llofnod ymgeisydd 1:** | **Dyddiad***:* |
| **Llofnod ymgeisydd 2:** | **Dyddiad***:* |
| **Llofnod ymgeisydd 3:** | **Dyddiad***:* |

**Datganiad gan Athro/Athrawes/Aseswr**

| | |
|---|---|
| **Llofnod yr athro/athrawes:** | **Dyddiad:** |

Rwy'n cadarnhau bod gwaith yr ymgeisydd/ymgeiswyr wedi ei gynnal yn unol â'r rheolaethau a nodwyd yn y fanyleb a'r papur cwestiwn.

**Asesu ymgeiswyr unigol**

(I'w gwblhau os ydych wedi gorfod asesu ymgeisydd yn unigol ar ddiwrnod yr asesiad a/neu os ydych wedi cysylltu gyda CBAC o flaen llaw i gael caniatâd.

| |
|---|
| **Rheswm dros asesu ymgeisydd yn unigol:** |

[1] Rhaid i chi fod dros 13 oed i roi cydsyniad. Cewch chi dynnu eich cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg drwy gysylltu â CBAC arcymwysterau@cbac.co.uk. Dylech chi gynnwys blwyddyn yr asesiad, enw a rhif y ganolfan, enw a rhif yr ymgeisydd a theitl yr uned yn yr e-bost. Yna bydd y gwaith yn cael ei dynnu oddi ar y wefan ddiogel.

Sampl ni ddylid ei ddefnyddio gyda'r asesiadau byw



© WJEC CBAC Ltd 2024.